

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR NOS FERCHER, 29 GORFFENNAF AM 7 PM

PRESENNOL: Y Maer (Cynghorydd Wilkinson) ynghyd â'r Cynghorwyr Aviet, Brooks, Charles, Clarke, Collins, Drake, Hampton, Hawkins, N Hodges, S Hodges, Hooper, Johnson, Lloyd-Selby, Nugent-Finn, Payne, Perkes, Richardson, Rowlands, Wiliam, a Wright.

<u>HEFYD YN BRESENNOL:</u> Emily Forbes	Prif Swyddog (Clerc y Dref)
Mark Sims	Dirprwy Brif Swyddog
Robyn Walsh	Swyddog Ymgysylltu
	Cymunedol
Rhian Burns	Gweinydddydd
JV Tree Services	
Sharon Harris	Barry and District News

740. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorydd Bailey.

741. **DERBYN DATGANIADAU O FUDDIANNAU O DAN GOD YMDDYGIAD Y CYNGOR GAN NODI GORCHYMYN AWDURDODAU LLEOL (MODEL GOD YMDDYGIAD) (CYMRU) 2008 A GORCHYMYN AWDURDODAU LLEOL (MODEL GOD YMDDYGIAD) (CYMRU) (DIWYGIAD) 2016 A FABWYSIADWYD GAN Y CYNGOR AR 16 MAI 2017 (TUDALEN 16 RHAN 3)**

Nododd y Cynghorwyr Aviet, Bailey, Brooks, Charles, Collins, Drake, Hampton, N Hodges, Johnson, Nugent-Finn, Perkes, Rowlands, Wiliam, Wilkinson a Wright eu bod yn Gynghorwyr ar Gyngor Bro Morgannwg ac y cawsant oddefeb i siarad ac i bleidleisio ar faterion yn ymwneud ag Ail-lunio Gwasanaethau.

Nododd y Cynghorydd Johnson y cafodd oddefeb i siarad a phleidleisio ar faterion i'r dyfodol yn ymwneud â Neuadd Pioneer a'r Neuadd Gymunedol arfaethedig yn Nynesfa'r Fynwent, gan ei fod yn Ymddiriedolydd Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer Cymdeithas Gymunedol Gerddi Alexandra.

Cafwyd munud o dawelwch i gofio pawb a fu farw yn ystod pandemig Coronafeirws.

742. **CYMERADWYO A LLOFNODI COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN A GYNHALIWDYD AR 10 CHWEFROR 2020**

Nododd y Cynghorydd S Hodges nad oedd yn teimlo fod cofnod rhif 738 (Adolygu gohebiaeth gyda JD Wetherspoon ynghylch arfbais Cyngor Tref Y Barri ac ystyried ymateb y Cyngor) yn ddigon manwl i adlewyrchu'r drafodaeth. Dywedodd, er ei bod yn gwerthfawrogi fod y

drafodaeth yn un gyfrinachol, ei bod yn teimlo y dylid gwneud yr ychwanegiad canlynol -
Cytunodd yr aelodau â'r ychwanegiad. Cytunwyd y dylid ychwanegu nodyn cyfrinachol at y cofnodion yn amlinellu'r drafodaeth a gafwyd rhag ofn y byddai unrhyw gynghorwyr yn y dyfodol eisiau deall y penderfyniad a wnaed.

PENDERFYNWYD:

- 1. Y dylid cymeradwyo a llofnodi'n gywir gofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2020 ar yr amod y gwneir yr ychwanegiad uchod.**

743.

DERBYN CYFATHREBIADAU ODDI WRTH Y MAER

Dyweddodd y Maer wrth yr aelodau y bu yng Ngorsaf Gwasanaethau Brys Y Barri ar gyfer angladd Bryan Foleys a bod ei deulu wedi cyfleu eu diolchiadau i bawb a safodd ar ochr y ffordd ar hyd y daith.

Dyweddodd y Maer na fyddai'n hawlio lwfans y Maer ar gyfer blwyddyn y cyngor 2020/21 gan nad oedd yn teimlo fod hynny'n briodol gan fod cyn lleied o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal.

Dyweddodd ei bod wedi cysylltu â'r Llang Brydeinig ac y byddai'n gosod torch gyda nifer fechan o bobl eraill i gofnodi 75 mlwyddiant diwedd yr ymladd yn Burma yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Dyweddodd y Maer gan na fu'n bosib iddi gynnal unrhyw fath o ddigwyddiad, y byddai'n danfon llythyr at y Tad Ben oedd wedi symud yn ddiweddar i ddiolch iddo am ei wasanaeth i'r dref.

Dyweddodd hefyd ei bod yn edrych ymlaen at allu parhau â'i dyletswyddau Maerol cyn gynted ag y byddai'n ddiogel gwneud hynny.

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cyfathrebiadau oddi wrth y Maer.

744.

YSTYRIED CWESTIYNAU ODDI WRTH GYNGHORWYR (CYFEIRIR AT REOL SEFYDLOG 3 (E))

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

745.

YSTYRIED CWESTIYNAU/SYLWADAU ODDI WRTH AELODAU'R CYHOEDD (CYFEIRIR AT REOL SEFYDLOG 3 (F))

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

746.

YSTYRIED CYNIGION A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR

Ni dderbyniwyd unrhyw gynigion.

Gofynnodd y Maer a ellid trafod Eitem 22 ar yr Agenda (Coed yn y Fynwent) yn awr. Cytunodd yr aelodau â'r cais hwn.

747.

EITHRIO'R WASG & CYHOEDD

PENDERFYNWYD yn unol ag adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ac oherwydd natur gyfrinachol y materion sydd ar fin cael eu trafod, ei bod yn well er lles y cyhoedd fod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod.

748.

COED YN Y FYNWENT

Derbyniodd yr aelodau wybodaeth ynghylch coed ar hyd y ffin â'r fynwent a Heol Sant Andreas. Cawsant adroddiad hefyd oddi wrth JV Tree Services yn amlinellu manteision ac anfanteision y dewisiadau oedd yn cael eu cynnig.

Dywedodd JV Tree Services nad oedd y dewis arfaethedig o gael gwared â'r coed gam wrth gam yn ymarferol am resymau iechyd a diogelwch gan y cafodd y coed eu plannu mor agos at ei gilydd a'u bod erbyn hyn yn dibynnu ar ei gilydd am gynhaliaeth ac y byddent yn fwy tebygol o fethu o ddilyn y llwybr hwn. Fe nodwyd felly fod rhaid penderfynu a ddylid cael gwared â'r coed yn gyfan gwbl neu a ddylid lleihau eu uchder.

Trafododd yr Aelodau y dewisiadau a'u pryderon mawr o ran canfyddiad y cyhoedd o gael gwared â'r coed. Trafodwyd hefyd barafesuriadau ymgynghoriad.

Gofynnodd y Cynghorydd Richardson am eglurder o ran pryderon iechyd a diogelwch y naill ddewis a'r llall. Dywedodd JV Tree Services na fyddai unrhyw faterion iechyd a diogelwch wrth gael gwared â'r coed a phlannu rhywogaethau brodorol llai yn eu lle. Fe nodwyd er hynny fod lleihau uchder y coed yn golygu y gallent dyfu'n anghytbwys ac y byddai angen gwaith cynnal a chadw cyson arnynt gan y byddent yn parhau i dyfu.

Dywedodd y Prif Swyddog ei bod yn deall pryderon Aelodau, ond mai'r argymhelliad proffesiynol oedd cael gwared â'r coed ac fel Prif Swyddog bydd yn cynghori Aelodau i ddilyn y cyfarwyddyd o'u hadroddiad i gael gwared â'r coed yn gyfan gwbl.

Cynigiodd y Cynghorydd S Hodges y dylid ymgynghori â grwpiau cyhoeddus ac amgylcheddol – gan roi manylion manteision ac anfanteision y ddau ddewis a chan gynnwys y mathau o goed fyddai'n cael eu plannu yn lle'r coed Leyland Cypresaidd anffodorol sydd yno ar hyn o bryd – ac y dylai'r Cyngor wneud penderfyniad wedyn. Eiliodd y Cynghorydd N Hodges y cynnig hwn.

Cynigiodd y Cynghorydd L Rowlands y dylid cael gwared â'r coed, y dylid gosod ffens newydd yn lle'r hen un ac y dylid ail-blannu'r ardal gyda rhywogaethau brodorol. Eiliodd y Cynghorydd Charles y cynnig hwn.

Cynhaliwyd pleidlais ar gynnig y Cynghorydd S Hodges, a'r canlyniad oedd –

Dros – 16
Yn erbyn – 4
Ymatal - 1

PENDERFYNWYD:

- 1. Y dylid ymgynghori â grwpiau cyhoeddus ac amgylcheddol ar gael gwared â neu leihau uchder y coed ar hyd y ffin â'r fynwent a Heol Sant Andreas.**
- 2. Y dylai'r ymgynghoriad gynnwys manylion manteision ac anfanteision y naill ddewis a'r llall a chan gynnwys y mathau o goed fyddai'n cael eu plannu yn lle'r coed Leyland Cypresaidd anffodrol sydd yno ar hyn o bryd.**

Gadawodd JV Tree Services y cyfarfod.

749. **CYNNWYS Y WASG & CYHOEDD**

PENDERFYNWYD: Y gallai'r wasg a'r cyhoedd fynychu gweddill y cyfarfod.

750. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR NEUADDAU, MYNWENTYDD A CHYFLEUSTERAU CYMUNEDOL A GYNHALIWDYD AR 6 GORFFENNAF 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Neuaddau, Mynwentydd a Chyfleusterau Cymunedol a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2020.

751. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A GYNHALIWDYD AR 7 GORFFENNAF 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2020.

752. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFODYDD GWEITHGOR Y BARRI GYNALIADWY A GYNHALIWDYD AR 13 AC 20**

GORFFENNAF 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT

Roedd yr Aelodau'n awyddus i gofnodi eu diolch i Swyddogion am eu gwaith yn casglu at ei gilydd y wybodaeth oedd ei hangen er mwyn i'r grŵp allu gwneud penderfyniad.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfodydd Gweithgor Y Barri Gynaliadwy a gynhaliwyd ar 13 a 20 Gorffennaf 2020, gan nodi y trafodir yr argymhellion sydd ynddynt yn llawn yn Eitem 15.

753. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR PERSONÉL A GYNHALIWYD AR 28 GORFFENNAF 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2020, gan nodi y trafodir yr argymhellion sydd ynddynt yn llawn yn Eitem 20.

754. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y GRŴP SIOPA'N LLEOL YN Y BARRI YMGYNGHOROL A GYNHALIWYD AR 16 GORFFENNAF 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Grŵp Ymgynghorol Siopa'n Lleol yn Y Barri a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2020.

753. **ATODLEN TALU CYFRIFON AR GYFER MAWRTH 2020 (TERFYNOL) AC EBRILL 2020 I FEHEFIN 2020**

Derbyniodd yr aelodau y rhestr daliadau ar gyfer Mawrth 2020 (Terfynol) ac Ebrill 2020 i Fehefin 2020 i'w chymeradwyo, yn cynnwys taliadau BACS a debydau uniongyrchol gwerth cyfanswm o £56,373.55.

PENDERFYNWYD:

1. Y dylid derbyn a nodi'r wybodaeth ynghylch taliadau cyflog ar gyfer Gorffennaf 2020, a ardystiwyd ac a awdurdodwyd gan y swyddogion priodol yn unol â gofynion Rheol Sefydlog 19(c).
2. Y dylid cymeradwyo'r rhestr daliadau ar gyfer Gorffennaf 2020 yn cynnwys taliadau BACS a debydau uniongyrchol gwerth cyfanswm o £56, 373.55.

754. **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB RHWNG 1 EBRILL A 30 MEHEFIN**

Derbyniodd yr aelodau adroddiad yn rhoi gwybod iddynt am incwm a gwariant y Cyngor ym mlwyddyn ariannol 2020/21 fel yr oedd ar ddiwedd Mehefin 2020.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer Mehefin 2020, yn dangos yr union incwm a gwariant hyd at ddiwedd mis tri ym mlwyddyn ariannol 2020/21, gan nodi'r gorwariant net o £19,413 ar gyfer 2020/21.

755.

CYMERADWYO CRONFA ADFER WEDI COVID-19 YN UNOL AG ARGYMHELLIAD GWEITHGOR Y BARRI GYNALIADWY

Cafodd aelodau drosolwg o'r argymhellion a drafodwyd yng nghyfarfodydd Gweithgor Y Barri Gynaliadwy a gynhaliwyd ar 13 a 20 Gorffennaf.

PENDERFYNWYD

1. Y dylid nodi mai'r darn yn ymwneud ag Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015 yw'r Fframwaith Gwneud Penderfyniadau ar gyfer Gwella Llesiant Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol Y Barri ac y dylid ei roi ar agenda pob pwyllgor o hyn ymlaen er diddordeb. (Atodiad 1)
2. Y dylid cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Gweithgor Y Barri Gynaliadwy, ar yr amod y gwneir y newid a drafodwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2020. (Atodiad 2)
3. Y dylid creu pennawd cyllidebol newydd, "Cronfa Covid-19", ac y dylid ystyried y cyllidebau canlynol ar gyfer eu hail-bwrpasu'n llawn neu'n rhannol i'r pennawd cyllidebol newydd hwn ar gyfer gweinyddu cefnogaeth ariannol i Fasnachwyr a Grwpiau Cymunedol ac ar gyfer prosiectau posib allai ddeillio o ymgynghori ag aelodau'r cyhoedd:
4. Y dylid ail-bwrpasu £3,000 o gyllideb Goleuadau Nadolig i Gronfa Covid-19, gan nodi na fydd hyn yn effeithio'r Goleuadau Nadolig a ddarperir ar draws y dref ar hyn o bryd.
5. Y dylid ail-bwrpasu £1,000 o'r gyllideb o £2,000 i Ddigwyddiadau Corfforaethol (a glustnodwyd i gynnal Ras Hwyl Flynyddol Sion Corn) i Gronfa Covid-19, gan nodi fod yr argymhelliad hwn yn golygu y cedwir £1,000 er mwyn gallu cynnal y digwyddiad o bell.

6. Y dylid ail-bwrpasu'r **£10,000** a neilltuwyd ar gyfer prynu Tân Gwyllt i Gronfa Covid-19, gan nodi y caiff y gyllideb hon ei **chlustnodi** pe bai trefnwyr y digwyddiad yn cysylltu â'r Cyngor Tref i awgrymu ffyrdd gwahanol o gynnal Gŵyl Tân Gwyllt eleni.
7. Y dylid ail-bwrpasu £2,000 o Ddigwyddiadau Corfforaethol a glustnodwyd i gynnal Dyddiau Hwyl i'r Teulu ac agoriad swyddogol Neuadd y Dref i Gronfa Covid-19.
8. Y dylid ail-bwrpasu **£4,000** o'r gyllideb Hysbysebu Corfforaethol er mwyn gallu **penodi cwmni rheoli cyfryngau cymdeithasol allanol i helpu hyrwyddo Siopa'n Lleol a'r dref**, gan nodi oherwydd hyd a goblygiadau ariannol posib y contract hwn y bydd Swyddogion yn trefnu cael 3 dyfynbris gwahanol er mwyn dangos gwerth gorau am arian.
9. Y dylid ail-bwrpasu £1,500 o'r gyllideb a neilltuwyd i ddechrau Cyngor leuenctid i Gronfa Covid-19, gan nodi fod yr argymhelliad yn golygu y cedwir cyllideb o £1,500 fel y gall y Swyddog Ymgysylltu Cymunedol edrych ar ffyrdd o alluogi'r Cyngor i ymgysylltu â phobl ifanc.
10. Y dylid ail-bwrpasu **£3,000** a neilltuwyd ar gyfer Prosiectau Dementia Weddus i Gronfa Covid-19, gan nodi y caiff yr arian yma ei **glustnodi'n** benodol ar gyfer prosiectau dementia weddus.
11. Y dylid ail-bwrpasu **£10,000** a neilltuir fel arfer ar gyfer menter Llyfrau i Ysgolion i Gronfa Covid-19, gan nodi y bydd Swyddogion yn cysylltu ag ysgolion i holi **a yw eu blaenoriaethau wedi newid ers Covid ac y ceir trafodaeth am y gyllideb hon yn ddiweddarach**.
12. Y dylid cymeradwyo **£5,000** o Gronfa Covid-19 ar gyfer **prynu baneri Caru'r Barri / Siopa'n Lleol** gan ddefnyddio'r seilwaith presennol yn Heol Holton a'r Stryd Fawr o'r Goleuadau Nadolig, ar yr amod y ceir caniatâd gan Adran Briffyrdd Bro Morgannwg.
13. Y dylid ail-bwrpasu £2,700 a glustnodir fel arfer ar gyfer Ciniawau Nadolig i Gronfa Covid-19.
14. Y dylid ail-bwrpasu £4,300 a glustnodir fel arfer ar gyfer Grantiau Gwyrdd i Gronfa Covid-19.
15. Y dylid rhoi £25,000 o'r gyllideb Grantiau Cymunedol yng Nghronfa COVID-19. Cytunodd yr Aelodau hefyd y dylid argymhell cynyddu'r pennawd cyllidebol ar gyfer Grwpiau

Cymunedol i £40,000 ac y dylid ysgrifennu at bawb a wnaeth gais i weld a yw eu hanghenion wedi newid oherwydd COVID-19.

16. Y dylid ail-bwrpasu'r £3,000 a neilltuir fel arfer ar gyfer cefnogi busnesau i Gronfa Covid-19, gan nodi'r argymhelliad (isod) y dylid clustnodi £50,000 o Gronfa Covid-19 ar gyfer ceisiadau am gymorth gan fasnachwyr annibynnol.
17. Y dylid awdurdodi Swyddogion i edrych ar brynu pabell o faint diwydiannol er mwyn galluogi masnachwyr i gynnig mwy o siopa awyr agored ac y dylid caniatáu cyllideb hyd at **£5,000** ar gyfer hyn o Gronfa Covid-19.
18. Y dylid gosod y Cynllun Cymunedol i'r naill ochr am 3 mis arall ac y dylid ei adolygu eto yn y dyfodol, gan nodi efallai y caiff y prosiect hwn ei ohirio unwaith eto.
19. Y dylid clustnodi £50,000 o Gronfa Covid-19 a fydd ar gael ar gyfer masnachwyr annibynnol trwy broses gwneud cais.
20. Y gall y Prif Swyddog awdurdodi gwariant o Gronfa Covid-19 wedi cael cytundeb yr Arweinyddion Grwpiau trwy'r broses Gweithredu Brys.

756. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

PENDERFYNWYD mai cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn fydd y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir ar nos Lun 28 Medi 2020 am 7pm

757. **EITHRIO'R WASG & CYHOEDD**

PENDERFYNWYD yn unol ag adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ac oherwydd natur gyfrinachol y materion sydd ar fin cael eu trafod, ei bod yn well er lles y cyhoedd fod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod.

758. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y GWEITHGOR ARLOESED A GYNHALIWYD AR 7 GORFFENNAF 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT YNGHYLCH ENWI'R ADEILAD CYMUNEDOL YN NYNESFA'R FYNWENT YN DILYN ADBORTH O'R GYMUNED**

PENDERFYNWYD:

1. Na ddylid enwi'r adeilad cymunedol yn Nynesfa'r Fynwent ar ôl un unigolyn ac y dylid ystyried ffyrdd eraill o goffáu

bywydau Darwin Payne, Gwyneth Hinds-Payne a Bryan Foley.

2. Y dylai'r Prif Swyddog edrych ar gyflwyno Polisi Enwi.
3. Y dylai'r Prif Swyddog ystyried safbwynt y Cyngor o ran derbyn deisebau, gan gynhyrchu adroddiad arall i'r Cyngor yn rhoi gwybod iddynt am ffrwyth yr ymchwil hwnnw gyda'r bwriad o fabwysiadu polisi i gefnogi hyn.
4. Y dylid cynnal Pleidlais Facebook a phleidlais gyda phellter cymdeithasol yn Neuadd y Dref i benderfynu ar enw'r Adeilad Cymunedol
5. Y dylid cyflwyno'r enwau canlynol i bleidlais gyhoeddus;
 - Tŷ Teilo
 - Tŷ Merthyr Dyfan
 - Canolfan Gymunedol Dynesfa'r Fynwent
 - Canolfan Gymunedol Enfys

759. **DERBYN ARGYMHELLION CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR PERSONÉL A GYNHALIWDYD AR 28 GORFFENNAF 2020 YNGHYLCH YMGYNGHORIAD GYDA STAFF MYNWENTYDD AR NEWID I'R GWASANAETH**

Cafodd yr Aelodau ddiweddariad ar yr ymgynghoriad â staff y mynwentydd ar newid i'r gwasanaeth.

PENDERFYNWYD

1. Y dylai'r cwmni diogelwch allanol barhau i gloi'r fynwent tan fis Medi 2020.
2. Y dylid trafod dewisiadau ar gyfer cyflwyno oriau agor haf yn 2021 mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Personél ym mis Hydref.

760. **ADOLYGU A CHYTUNO YMATEB I OHEBIAETH J.D. WETHERSPOON YNGHYLCH ARFBAIS CYNGOR TREF Y BARRI**

Cafodd yr Aelodau gopi o'r ymateb drafft i ohebiaeth J.D Wetherspoon a luniwyd gan gyfreithiwr Cyngor Tref Y Barri.

Cynigiwyd y dylid danfon y llythyr at gyfreithwyr J.D Wetherspoon. Canlyniad hynny oedd y **PASIWYD** y cynnig trwy bleidlais fwyafrifol.

Dros - 16
Yn erbyn - 5

PENDERFYNWYD:

- 1. Y dylid danfon yr ymateb a luniwyd gan gyfreithiwr Cyngor Tref Y Barri at gyfreithiwr J.D Wetherspoon.**

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm.

Llofnodwyd Dyddiedig

.....

(Maer y Dref)